

CLWB MYNYDDA CYMRU

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd am 5.30 yh, 18 Tachwedd 2006 yn yr “Oakley Arms”, Maentwrog.

Roedd 46 aelod yn bresennol.

1. **Anerchiad y Cadeirydd**, George Jones. Talwyd teyrnged at yr aelodaeth cryf a'r rhai gweithgar, yn arbennig arweinwyr teithiau – yng Nghymru a mannau eraill, a'r Pwyllgor. Roedd CMP wedi ethol Cadeirydd newydd ac felly roedd cyfle newid pethau !
2. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol**. Er mwyn gwella'r gwasanaeth i'r aelodau roedd e'n awyddus darparu gwybodaeth am arweinwyr Cymraeg, dosbarthu enwau, cyfeiriadau a rhifau ffon aelodau, cynnwys cofnodion ar y Wefan a hybu cyfathrebu rhwng yr aelodau a'r Pwyllgor a gweld y Clwb trafod y ffordd ymlaen – yn arbennig marchnata a hybu mynyddwyr ifanc.
3. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau**. Nifer y teithiau oedd : Gogledd -26, De – 12, Mercher – 12, gwyliau cerdded – 3 , teithiau preswyl – 4, hyfforddi – 3 , pobl ifanc – 3.
Roedd Rodney Hughes yn ddiolchgar am yr holl gardiau.
4. **Adroddiad Golygydd y Wefan**. Roedd e'n ddibynnol ar dderbyn deunydd, ac yn fodlon golygu'r cynnwys. Cyn bo hir bydd “fforwm” ar gael a negeseuon yn uniongyrchol at ffoniau llaw aelodau.
Yn ystod y noson bydd cyfle i aelodau bidio a phrynu llyfrau'r diweddar Francis Hughes, un o aelodau cyntaf y Clwb
5. **Adroddiad y Trysorydd**. Derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol 2005-2006.
6. **Etholwyd y Swyddogion canlynol**:
Cadeirydd : Dylan Huw
Is-gadeirydd : Morfydd Thomas
Ysgrifennyddion: Clive James, Maldwyn Thomas, Iolo ap Gwynn
Trysorydd : J A Jones
7. **Etholwyd y canlynol i'r Pwyllgor** ; Alan Hughes (32 pleidlais), Alwen Roberts (28), Llew ap Gwent (25) a Tegwen Williams (23).
(Mewn cyfarfod sydyn o'r Pwyllgor newydd cyfetholwyd Arwel Roberts, John Williams a Ceri Jones.)
8. Penodwyd Gareth P Evans fel **Archwilydd**
9. Derbyniwyd y **newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad**, gan gynnwys gwelliannau gramadegol, gyda'r newidiadau canlynol :
 - newid y cworwm i 15%
 - enwi “Urdd Gobaith Cymru” fel derbynydd asedau'r Clwb.
10. **Talwyd diolch mawr** at waith George Jones gan y Cadeirydd newydd.